Cynllun Grantiau Gwirfoddoli Cymru – Dyfarniadau Grantiau Strategol 2023-25

Mudiad	Disgrifiad o'r prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Gofal Cymdeithasol Cymru	Nid yw'n amlwg ar hyn o bryd pa gyfleoedd sydd i wirfoddolwyr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol mewn modd sy'n diwallu anghenion y gwirfoddolwr ac anghenion y gwasanaeth. Cynigir gwneud ymarfer cwmpasu i ddeall y sefyllfa bresennol a chynnig opsiynau ar gyfer cryfhau'r cyfleoedd i wirfoddolwyr yn y maes gofal cymdeithasol. Estyniad - Gwaith ymchwil yn edrych ar deithiau gwirfoddolwyr cartrefi gofal. Byddai hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil trwyadl, ansoddol gyda gwirfoddolwyr – gan ganolbwyntio ar eu cymhellion, eu llwybrau at eu rolau a'r adegau allweddol a newidiadau – er mwyn gweld beth sy'n effeithio ar brofiadau gwirfoddolwyr yn ogystal â'r ymdrechion i'w recriwtio a'u cadw. Adnodd yn dangos y rolau sydd gan wirfoddolwyr mewn cartrefi gofal ar sail canfyddiadau ein prosiect cyfredol. Byddai'n amlinellu pa hyfforddiant a chymorth sydd ei angen ar gyfer pob rôl ac yn cyflwyno dolenni i adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Byddai'n ddefnyddiol i gartrefi gofal, Llywodraeth Cymru, Age Cymru ac i eraill	£115,000.00

	sy'n recriwtio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr, yn enwedig Gofalwn Cymru.	
Foothold Cymru	Bydd Ysgolion dros Newid yn creu model arloesol y gellir addasu ei faint ar gyfer uno ysgolion ac achosion lleol er mwyn creu effaith gymdeithasol drwy wasanaeth brocera gwirfoddoli. Ein nod yw: • cael gwared â'r rhwystrau i ysgolion a mudiadau cymunedol wrth ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon i fyfyrwyr • Annog ceiswyr lloches 11-18 oed i wirfoddoli a'u cefnogi. Estyniad – I ddatblygu ac ehangu'r platfform ymhellach, mae'r cynnig yn cynnwys cyflogi rheolwr datblygu busnes â'r amcanion canlynol: Chwe mis cyntaf: • Datblygu cyrhaeddiad y porth i ysgolion yng Ngheredigion, Powys a Sir Benfro. • Cydweithio â Chynghorau Gwirfoddol	£138,062.69

	Sirol (CVCs) o fewn y siroedd hyn i hybu'r trydydd sector i'w fabwysiadu. Chwe mis nesaf: • Ehangu'r defnydd o'r porth y tu hwnt i'r siroedd cychwynnol. • Datblygu cynllun busnes cynhwysfawr i ddenu nawdd neu roi polisi codi tâl ar waith i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y porth. Ynghyd â hyn, byddai pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r porth i wirfoddoli drwy gydol y cyfnod hwn. Nod y dull strategol hwn yw gwella effaith y platfform, gan sicrhau ei fod yn dod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer meithrin ymgysylltiad ieuenctid â gwirfoddoli ledled Cymru.	
Plant yng Nghymru	Trwy adeiladu ar yr arferion da a ddatblygwyd gan fudiad Plant yng Nghymru (CIW), a'n Rhaglen Gwirfoddolwyr Ifanc Cymru, byddwn yn rhannu dysgu ac yn ymwreiddio arferion o fewn Cymdeithas Pêl-droed Cymru mewn partneriaeth strategol er mwyn cryfhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fynd ati'n effeithiol i recriwtio, cynorthwyo a chadw Gwirfoddolwyr Ifanc (11-24 oed). Estyniad – Mae'r cynllun 12 mis hwn i ddatblygu'r prosiect presennol gyda	£164,782.81

	Chymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW) drwy lansio Rhaglen Llysgennad Ieuenctid. Bydd CIW yn cefnogi'r gwaith o recriwtio a chynefino llysgenhadon ifanc mewn 6 ardal ranbarthol. Bydd y rhain yn bwydo i mewn i gyfarfodydd chwarterol Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol FAW er mwyn darparu mewnwelediad ac adborth. Bydd llysgenhadon yn cynyddu'r ymgysylltiad, yn hybu nodau'r prosiect ac yn hyrwyddo cyfranogiad ieuenctid cynhwysol mewn pêl-droed. Bydd y llysgenhadon yn helpu i sicrhau bod lleisiau ifanc yn helpu i lywio dyfodol mentrau pêl-droed i ieuenctid. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi nod strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y "Strategaeth Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant (RACRS)", sy'n cefnogi gweithrediad UNCRC (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) "I rymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd."	
Cymdeithas Mind Casnewydd	Bydd y prosiect hwn yn cyd-gynhyrchu model y gellir ei gopïo o wirfoddoli cynhwysol, wedi'i rymuso ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed ledled Gwent. Byddwn ni'n rhoi Cymunedau Ymarfer a Grŵp Llais Ieuenctid ar waith i rannu dysgu a chynnwys pobl ifanc mewn Llywodraethu, ac yn cynyddu'r cyfleoedd	£142,194.14

	gwirfoddoli sydd ar gael i bobl ifanc. Estyniad - i greu rolau byr, rhan-amser i Lysgenhadon Lles ifanc ar y prosiect. Rhagwelwn y gallwn greu pedair rôl dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfer Llysgenhadon Lles ifanc sydd eisoes ar y prosiect, tan fis Mawrth 2026. Byddai hyn yn caniatáu i bobl ifanc hybu'r gwaith ledled y siroedd, creu gwaith gwaddol rhag ofn na fyddwn yn gallu dod o hyd i gyllid pellach ac yn caniatáu i ni gynnig a datblygu pecyn cymorth gwirfoddoli i bobl ifanc. Byddai hefyd yn caniatau i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a gwybodaeth drwy gyflogaeth. Pe bai hwn yn rhywbeth a allai gael ei gefnogi, byddem wrth reswm yn datblygu naratif a chynnig cyllid manylach.	
Sported Foundation	Nod y prosiect hwn yw gwella capasiti ac effaith gwirfoddoli â sgiliau/rheoli yn sector chwaraeon cymunedol Cymru. Bydd yn cynnal asesiad o anghenion, yn cydgynllunio datrysiadau ac yn datblygu fframwaith gwirfoddoli strategol gydag arferion gorau, safonau, polisïau a chymorth. Bydd hefyd yn dosbarthu ac yn rhannu dysgu ac arferion da. Estyniad – Mae'r prosiect yn y 'Cam Datrysiadau', lle rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar draws y sector i fynd i'r afael	£132,380.00

	â'r heriau a wynebir wrth wirfoddoli ar fyrddau rheoli. Yn ôl y gweithgaredd cwmpasu datrysiadau cychwynnol, bydd angen nifer o bartneriaid strategol ar y prosiect o'r sectorau Cyhoeddus, Preifat, Chwaraeon, Trydydd a Phrifysgol/Addysg Bellach i gyflawni effaith gynaliadwy ar ddatrysiadau lefel tactegol a strategol. Bydd y prosiect yn defnyddio buddsoddiad i gyflogi Rheolwr Partneriaethau a fydd yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain y partneriaethau hyn â rhanddeiliaid. O ganlyniad: Bydd y sector yn datblygu mwy o ddatrysiadau cydweithredol a chynaliadwy, yn cyfuno adnoddau, galluoedd ac arloesedd ac yn cyflawni effaith ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru.	
Llais y Goedwig	Diffinio llwybrau a phrosesau o fewn Awdurdodau Lleol i wirfoddoli ar lefelau gwahanol, nodi buddion a rhwystrau ac ymchwilio i ddatrysiadau i gael mynediad at fannau gwyrdd ar gyfer gwirfoddoli. Rhannu gwybodaeth a phrofiad ar lefel strategol, a galluogi Cynghorau i ddod o hyd i ddatrysiadau i heriau gwirfoddoli hygyrch mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Estyniad – Adeiladu ar ein prosiect cyfredol, fel y gallwn gyflwyno darlun cenedlaethol cydlynol o arferion gorau, rhwystrau i	£145,272.80

	wirfoddoli o fewn cynghorau ac edrych ar ffyrdd pellach o fynd i'r afael â phroblemau. Byddwn yn: · Cefnogi dau gyngor pellach er mwyn llenwi'r bylchau daearyddol yn y gynrychiolaeth gyfredol. Un yng ngogledd-orllewin Cymru a'r llall yn ne-ddwyrain Cymru. · Cydweithio â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) cyfatebol yn y chwe Chyngor rydym yn gweithio gyda nhw i rannu arferion gorau a chynnig sesiynau rhwydweithio i staff y cynghorau ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â gwirfoddoli dan arweiniad Cynghorau - gan eu galluogi i gefnogi eu gwirfoddolwyr yn well.	
Innovate Trust	Datblygu hwb gwirfoddoli digidol a fydd yn agor y dirwedd wirfoddoli i bobl ag anableddau dysgu, trwy wella hygyrchedd a chynhwysiant, cael gwared â rhwystrau a gweithio gyda mudiadau partner i wella arferion. Cydgynhyrchu canolfan wybodaeth ryngweithiol ar yr Hwb Gwirfoddoli, sy'n cynnwys cyrsiau i bobl ag anableddau dysgu i'w cefnogi ar ddechrau ac yn ystod eu taith wirfoddoli. Byddai unigolion yn gallu gwneud cyrsiau ar eu cyflymder eu hunain. Gallai mudiadau hefyd ddefnyddio'r cyrsiau gyda'u gwirfoddolwyr eu hunain, gan eu galluogi i deimlo'n fwy parod ac yn fwy hyderus i	£113,604.03

	gefnogi gwirfoddolwyr ag anghenion arbennig. Estyniad – Datblygu system ymgeisio a fyddai'n caniatau i fudiadau dderbyn ceisiadau ar gyfer eu cyfleoedd drwy'r Hwb. Bydd datblygu system ymgeisio hygyrch yn lleihau'r rhwystrau gwirfoddoli ymhellach i oedolion ag anableddau dysgu.	
St Giles Trust	Bydd St Giles Cymru yn datblygu ac yn lansio pecyn cymorth ymarferol i gynorthwyo cyflogwyr yng Nghymru i fynd ati'n hyderus i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli i'r rheini â phrofiad bywyd drwy ddarparu pecyn cymorth hunanasesu gyda chyngor ac arweiniad ymarferol i gyflogwyr ddatblygu arferion recriwtio cynhwysol sy'n cael gwared â'r rhwystrau i'r rheini ag euogfarnau troseddol. Mae St Giles Cymru yn datblygu ac yn lansio Porth Ar-lein a Phecyn Cymorth Digidol i gefnogi pobl â phrofiadau bywyd i ddatblygu eu capasiti a'u gallu i wirfoddoli a gweithio yng Nghymru. Bydd y Pecyn Cymorth yn cynorthwyo cyflogwyr yng Nghymru i ehangu cyfleoedd gwirfoddol i'r rheini â phrofiadau bywyd, gan gynnig pecyn cymorth hunanasesu â chyngor ac arweiniad ymarferol i ddatblygu arferion recriwtio cynhwysol. Bydd hwn yn cael ei lansio ym mis Mawrth 25.	£147,920.00

	Estyniad – Darparu ymgyrch ymwreiddio 12 mis, 'Ymwreiddio Profiadau Bywyd wrth Wirfoddoli yng Nghymru', a phenodi Rheolwr Prosiect ac Arweinydd Ymgyrch Profiad Byw i weithio ar draws sectorau a chyflawni dros Gymru.	
PLANED	Roedd neuaddau cymunedol a neuaddau pentref eisoes yn cael heriau recriwtio gwirfoddolwyr ar ôl COVID. Nawr, gydag heriau economaidd-gymdeithasol cyfredol 2023, lle mae angen y lleoliadau hyn fwyfwy yng nghanol cymunedau, bydd ein prosiect yn darparu dull gweithredu cydgysylltiedig, sy'n benodol i ardal leol ac sy'n cael ei gydlynu'n rhanbarthol. Bydd y dull hwn yn cael ei gefnogi gan arweinwyr dan arweiniad cymuned sefydledig ag adnoddau cynaliadwy.	£90,704.20
Llywodraethwyr ar gyfer Ysgolion	I ddatblygu fframwaith y gall mudiadau yng Nghymru ei roi ar waith i gefnogi gwirfoddoli lefel bwrdd ar fyrddau llywodraethu ysgolion. Drwy gydweithio ag awdurdodau lleol, ysgolion, cymunedau a busnesau yng Nghymru, byddwn yn pennu'r arferion a'r gefnogaeth orau i wirfoddolwyr gael effaith hirdymor ar bobl ifanc mewn addysg.	£75,057.01